**REOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 5) (CYMRU) (DIWYGIO)**

**ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

**Newidiadau i ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2021 mewn cysylltiad â COVID-19**

**Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010**

O ran newidiadau yn ein canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2021.

Mae'r cynnig yn adeiladu ar y dysgu wyneb yn wyneb y mae dysgwyr wedi gallu ei wneud mewn ysgolion a lleoliadau ers i bob ysgol yng Nghymru ailagor yn llawn ym mis Ebrill 2021 yn dilyn diwedd tymor y Pasg, ac wedi'i osod yng nghyd-destun y gwelliant parhaus yn y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Amlinellir y cynigion cyffredinol yn gryno isod. Rydym yn derbyn yn llwyr fod gan unrhyw newid i drefniadau addysg effaith amrywiol ac eang ar wahanol grwpiau gan gynnwys dysgwyr staff teuluoedd a chymunedau.

Yn ogystal â'r newidiadau hyn (gweler isod), cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 29 Gorffennaf, o 7 Awst, na fyddai'n rhaid i bob oedolyn sydd wedi cael eu brechu'n llawn na phlant dan 18 oed hunanynysu mwyach os nodir eu bod yn gysylltiadau agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif am Covid-19. Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn ystyried y newidiadau hyn gan eu bod wedi'u cynnwys yn yr Asesiadau Effaith a gynhaliwyd ar gyfer y cyfnodau adolygu 21 diwrnod, a gellir dod o hyd i'r rhain yma.

**Cynnig**

Ailagorodd ysgolion yn llawn i ddysgwyr ym mis Ebrill 2021 er bod rhai cyfyngiadau wedi effeithio ar allu ysgolion i weithredu diwrnod ysgol arferol gydag ystod lawn a chyflawn o gymorth a gwasanaethau. Roedd y cyfyngiadau hyn yn cynnwys defnyddio gorchuddion wyneb gan staff a dysgwyr uwchradd ar draws adeiladau ysgolion ac mewn ystafelloedd dosbarth, cynnal grwpiau cyswllt llym (ac amrywio amseroedd dechrau a gorffen yn yr ysgol i hwyluso hyn), ceisio cadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo modd, a gwell cyfundrefnau glanhau.

Ceir crynodeb isod o'r newidiadau o ddechrau blwyddyn ysgol 2021-22.

- O ddechrau'r tymor newydd, ni fyddwn bellach yn argymell gwisgo gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer staff neu ddysgwyr. Fodd bynnag, efallai y bydd ysgolion a lleoliadau am annog eu defnydd mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol, megis mewn ardaloedd cymunedol. Dylai dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau

uwchradd barhau i wisgo gorchuddion wyneb wrth deithio ar gludiant ysgol pwrpasol. Fel rhan o broses asesu risg ysgol, a gefnogir gan swyddogion iechyd y cyhoedd, ac mewn trafodaeth ag awdurdodau lleol, bydd ysgolion a lleoliadau yn gallu penderfynu a yw gwisgo gorchuddion wyneb yn briodol yn unrhyw le ar safle'r ysgol yn seiliedig ar amgylchiadau a chyd-destun lleol yr ysgol ei hun. Fodd bynnag, os yw unigolyn yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb, ni ddylid ei atal.

- Bydd ysgolion a lleoliadau yn dychwelyd i'w hamseroedd sesiynau arferol ar gyfer y tymor newydd, yn dilyn datgymhwyso dros dro y Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion 2009 o haf 2020 tan haf 2021.
- Nid oes angen grwpiau cyswllt/swigod mwyach. Bydd Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) yn arwain ar nodi cysylltiadau agos staff a dysgwyr sydd wedi profi'n bositif, gyda chymorth trafodaethau gydag ysgolion a lleoliadau ac unrhyw wybodaeth bellach a allai fod ar gael gan y lleoliad. Bydd y swyddog olrhain cysylltiadau TTP yn casglu gwybodaeth gan y rhai sy'n profi'n bositif mewn lleoliad a chael gwybod pwy yr oeddent mewn cysylltiad agos â nhw. Ar gyfer dysgwyr byddant yn canolbwyntio ar gysylltiadau cymunedol ac unigolion y mae'r plentyn yn adrodd eu bod wedi rhyngweithio'n agos â nhw. Ni fydd mwyafrif y dysgwyr yn y dosbarth/lleoliad yn cael eu nodi fel cysylltiadau agos. Yn hytrach, efallai y cynghorir yr ysgol i fynd ati i roi gwybod i rieni a staff am y sefyllfa a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud, yn seiliedig ar gyngor TTP.
- Mae angen i gyfundrefnau glanhau fod yn gymesur ac yn gyson ag unrhyw glefyd trosglwyddadwy arall. Ni fydd angen mwyach i ysgolion a lleoliadau neilltuo diwrnodau penodol ar gyfer glanhau dwys. Fodd bynnag, os bydd achos wedi'i gadarnhau yn yr ysgol/lleoliad, bydd glanhau'r ardal gyfagos yn ddwfn yn parhau i fod o gymorth o ran lleihau'r trosglwyddiad.

Bydd Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r newidiadau hyn. Yn ogystal, byddwn yn cyhoeddi fframwaith a chanllawiau ategol o ddechrau tymor yr hydref. Bydd y *Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau Covid-19 Lleol* yn galluogi ysgolion a lleoliadau i deilwra rhai mesurau ymyrryd i adlewyrchu lefel y risg a nodwyd yn lleol. Mae'r gwaith hwn yn datblygu'n gyflym ar hyn o bryd.

Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd gan Plant yng Nghymru a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, ym mis Gorffennaf 2021, gyda phlant a phobl ifanc i gael eu hadborth ar sut mae ysgolion wedi gweithredu ers ailagor i bob disgybl. Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion fod gwisgo gorchuddion wyneb drwy gydol y diwrnod ysgol, yn enwedig tra'n eistedd mewn ystafell ddosbarth am fwyafrif helaeth o'u hamser, yn gwneud iddynt deimlo'n flinedig, yn sâl ac yn effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio'n briodol am gyfnodau estynedig. Ychwanegodd rhai fod gorchuddion wyneb yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel yn gyffredinol, ond nad oeddent bob amser yn cael eu gwisgo'n iawn ac mae'n ymddangos bod ymagwedd anghyson at eu defnydd ar draws ysgolion a lleoliadau yng Nghymru.

O ran hunan-ynysu, teimlai'r rhan fwyaf o ddisgyblion nad yw rheolau presennol ynghylch swigod neu grwpiau cyswllt yn gweithio. Y rheswm am hyn yw bod ysgolion, ar y cyfan, yn ofalus iawn pan fydd disgybl yn profi'n bositif ac mae plant yn gorfod hunanynysu er nad ydynt yn gwybod neu ddim wedi dod i gysylltiad â'r disgybl yr effeithir arno. Amharwyd yn ddifrifol ar y dysgu gyda disgyblion yn gorfod newid o'r ysgol i ddysgu ar-lein gartref, gyda'r un grwpiau blwyddyn yn yr un ysgolion weithiau yn cael eu heffeithio sawl gwaith. Mae disgyblion wedi datgan nad yw'r profiad o ddysgu ar-lein mor effeithiol ag yn yr ystafell ddosbarth ac yn aml mae athrawon wedi gorfod cydbwyso dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein ar yr un pryd, gan ddibynnu ar ba grwpiau oedd yn hunan-ynysu ar unrhyw adeg benodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu nad yw amseroedd dechrau gwahanol mewn ysgolion a lleoliadau yn gweithio gan fod yr arfer hon yn amharu ar amseroedd dechrau a gorffen y diwrnod ysgol, gydag effaith andwyol ar glybiau brecwast, ac mae amser cinio'n aml yn cael ei gwtogi a disgyblion yn cael eu gollwng o'u gwersi'n gynnar dim ond i orfod eistedd ar gludiant ysgol am gyfnodau estynedig. Ychwanegodd rhai pobl ifanc eu bod yn teimlo'n fwy diogel gan fod amseroedd dechrau a gorffen gwahanol wedi lleihau nifer cyffredinol y disgyblion sy'n symud o amgylch yr ysgol ar yr un pryd.

Ym mis Ionawr 2021, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru arolwg ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru i roi cyfle iddynt rannu eu barn a'u profiadau ynghylch sut yr effeithiodd y cyfyngiadau symud o ganlyniad i'r pandemig arnynt.

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf fis Mai 2020, mae'r ail ymgynghoriad a'r adroddiad hwn yn cyflwyno barn a phrofiadau 19,737 o blant a phobl ifanc 3-18 oed am y cyfyngiadau COVID.

Mae adroddiad mis Ionawr, Coronafeirws a Fi yn amlinellu yn ei ganfyddiadau cryno fod bywyd wedi bod yn anodd ar y cyfan i bob grŵp oedran gyda llawer yn mynegi rhwystredigaeth ac weithiau dicter am effaith y pandemig ar eu bywydau. Siaradodd llawer am weld eisiau eu ffrindiau, athrawon, ysgolion a theuluoedd. Dywedodd 30 y cant o bobl ifanc 17 a 18 oed eu bod yn poeni 'y rhan fwyaf o'r amser'.

Roedd dros eu hanner yn mwynhau dysgu gartref ar eu cyflymder eu hunain, ond roedd llawer yn poeni am syrthio ar ei hôl hi gyda'u dysgu. Gwelir bod lefelau hyder a chymhelliant o ran addysg yn gostwng gydag oedran.

Yn y ddau ymgynghoriad gwelwn fod plant sy'n wynebu mwy o rwystrau rhag cael mynediad at eu hawliau hefyd wedi wynebu mwy o anawsterau ar gyfartaledd na'u cyfoedion. Mae plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o boeni am coronafeirws, yn fwy tebygol o deimlo'n drist, ac yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel. Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o deimlo'n unig ac yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.

Nododd llawer o blant a phobl ifanc brofiadau cadarnhaol hefyd yn y ddau ymgynghoriad, gan gynnwys mwynhau treulio amser gartref a chael cymorth da gan ysgolion a gweithwyr ieuenctid.

**Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol,* Hydref 2020**

Fel rhan o'i gyfres o adroddiadau *A yw Prydain yn Decach?* mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn edrych ar ffyrdd y mae'r pandemig wedi effeithio ar wahanol grwpiau. Mae’r canfyddiadau allweddol am gau ysgolion a dysgu o bell yn cynnwys:

> *"Mae yna berygl gwirioneddol o ‘genhedlaeth COVID' coll wrth i bobl ifanc golli allan ar addysg a bod yn debygol o wynebu’r colledion swyddi mwyaf.*
>
> *"Mae’r amrywiaethau mewn cefnogaeth ar gyfer dysgu o bell yn ystod y pandemig yn bygwth lledaenu’r anghydraddoldeb ar gyfer y rhai sydd eisoes yn perfformio’n llai da na'u cyfoedion, yn arbennig bechgyn, disgyblion duon, rhai disgyblion Sipsiwn, Roma a theithwyr, disgyblion sydd angen cefnogaeth mewn addysg, a'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.*
>
> *"Mae'r ymateb i’r pandemig wedi creu bylchau yn addysg y mwyafrif o blant ym Mhrydain. Mae'r bylchau hyn yn bygwth cyrhaeddiad ar lefel cynradd ac uwchradd.*
>
> *"Mae bechgyn yn dal i berfformio'n waeth na merched ac mae cyrhaeddiad plant sydd â SEND / ASN / ADY yn llawer is na'r rhai heb anghenion o'r fath.*
>
> *"Mae gan ddisgyblion duon lefelau cyrhaeddiad is na grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill, er bod disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dal i fod â'r lefelau cyrhaeddiad isaf o unrhyw grŵp ethnig o swm arwyddocaol.*
>
> *"Mae plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu o ardaloedd o amddifadedd yn perfformio'n is na'r cyfartaledd. Mae perygl y bydd y grwpiau hyn yn colli tir pellach. Mae yna hefyd anghydraddoldebau o ran faint o amser a dreulir ar ddysgu yn y cartref, gyda rhywfaint o arwydd bod bechgyn yn treulio llai o amser ar ddysgu yn y cartref na merched.*
>
> *"Awgryma ymchwil nad oedd gan 20% o ddisgyblion ar brydau ysgol am ddim yn y Deyrnas Unedig fynediad at gyfrifiadur yn y cartref, o gymharu â 7% o blant eraill.*

*"Yng Nghymru, mae yna hefyd bryderon nad yw disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac nad oes ganddynt rieni sy'n siarad Cymraeg yn cael digon o sylw."*

Rydym wedi nodi rhai effeithiau penodol yn ôl nodwedd warchodedig ac wedi rhestru'r rhain isod.

Yn gyffredinol, lle'r ydym yn cyfeirio at staff, cyfeiriwn at yr ystod lawn o staff sy'n ymwneud ag ysgolion a lleoliadau gan gynnwys yr holl staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, staff gweinyddol, cyfleusterau a chludiant i'r ysgol.

## Anabledd

### Staff ag anableddau

Mae'n debygol y bydd angen i nifer uwch o staff ysgolion a lleoliadau sydd ag anableddau corfforol gymryd rhagofalon o ran parhau i ddefnyddio gorchuddion wyneb yn yr ysgol neu'r lleoliad o gymharu â staff heb anabledd. Bydd rhai ohonynt yn hynod fregus yn glinigol ac efallai wedi bod yn cysgodi yn y gorffennol.

Yn achos aelodau o staff ag anghenion cymorth ychwanegol, bydd yn bwysig i unrhyw newidiadau i'r drefn arferol gael eu cyfleu'n glir.

### Lles meddyliol staff

Mae'n bosibl bod staff sy'n dioddef o salwch meddwl wedi cael hi'n anodd dygymod â'r cyfyngiadau ar drefniadau gweithredol a bod hyn wedi cael mwy o effaith negyddol ar eu lles na'u cyfoedion. Gall yr un grŵp o bobl fod yn fwy tebygol o fod yn bryderus ynglŷn â newidiadau pellach i drefniadau gweithredol mewn ysgolion a lleoliadau, ac rydym yn cydnabod y gallai staff fu'n gweithio ar y safle drwy'r dychweliad graddol fod wedi cael profiadau gwahanol. Nodir cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles yng Nghanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion.

### Profion rheolaidd

Wrth i sefyllfa iechyd y cyhoedd yng Nghymru wella, a'r symudiad i lawr i Lefel Rhybudd 0, rydym yn cydnabod y bydd mwy o gyfleoedd i gymysgu yn gymdeithasol y tu allan i'r ysgol.

Mae canllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion o 1 Medi ymlaen yn rhoi gwybodaeth am y mesurau y gall ysgolion a lleoliadau ac unigolion eu cymryd i aros yn ddiogel. Mae nodyn cyngor cysylltiedig yn datgan y bydd profion yn parhau i chwarae rhan bwysig yn yr hydref wrth helpu ysgolion a lleoliadau i ddod o hyd i achosion positif o'r Coronafeirws yn gyflym mewn ysgolion a lleoliadau. Dylid annog staff ysgol a dysgwyr oedran uwchradd i gymryd Profion Llif Unffordd ychydig cyn dychwelyd i'r ysgol. Bydd profion yn cael eu cynnig drwy sianeli cymunedol yn

ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau cyfathrebu pellach yn y cyfnod cyn dechrau tymor yr hydref i gefnogi hyn.

## <u>Rhyw</u>

### Cyfrifoldebau gofal

Un o nodau allweddol y newidiadau i'r trefniadau gweithredol mewn ysgolion o fis Medi 2021 ymlaen yw lleihau nifer y dysgwyr sy’n gorfod hunanynysu.

Rydym yn cydnabod bod aelodau o’r staff sy’n fenywod yn fwy tebygol o fod wedi bod yn jyglo cyfrifoldebau gofal am eu plant eu hunain wrth hunanynysu tra'n parhau i gefnogi dysgwyr. Rhagwelir y bydd y camau a gymerir i leihau nifer y plant sy’n gorfod hunanynysu yn cael effaith gadarnhaol ar hyn.

Gall dileu'r gofyniad i gadw at grwpiau cyswllt llym hefyd olygu bod modd cynnig darpariaeth bellach megis brecwast am ddim a chlybiau ar ôl ysgol, gan alluogi rhai i ddychwelyd i batrymau gwaith eu contract neu batrymau gwaith sy'n cydbwyso'n well â'u cyfrifoldebau gofalu eu hunain; rydym yn cydnabod bod y cymorth cofleidiol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol yn bwysig i lawer o deuluoedd er mwyn darparu hyblygrwydd o ran trefniadau gweithio.

### Iechyd menywod

Ar unrhyw un adeg, bydd cyfran o'r gweithlu addysg benywaidd yn delio ag effeithiau gwanychol y menopos a materion iechyd mislif eraill fel endometrosis. Gall straen, y gwyddom ei fod wedi cynyddu i rai o ganlyniad i gyfnodau clo a chyfyngiadau, waethygu nifer o'r symptomau sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau hyn. Gyda gweithleoedd yn symud tuag at fod yn 'gyfeillgar i'r menopos' dylai ysgolion ystyried sut maen nhw'n cynnig cymorth o fewn y cyd-destun hwn.

### Ailbennu rhywedd

Mae'n bosibl bod aelodau trawsryweddol y gweithlu wedi profi oedi cyn cael triniaeth sy'n cadarnhau rhywedd oherwydd COVID-19, a allai gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles. Nid oes data ar gael i ddod o hyd i faint o aelodau'r gweithlu y gallai hyn fod yn effeithio arnynt.

### Beichiogrwydd a Mamolaeth

Dylai aelodau beichiog o'r gweithlu barhau i ddilyn y canllawiau diweddaraf a nodir yng Nghanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru i ysgolion, a dylai cyflogwyr gynnal asesiadau risg.

### Dychwelyd i'r gwaith

Bydd rhai aelodau o staff yn dychwelyd i'r gweithlu ar ôl cyfnod mamolaeth a bydd rhai agweddau o’r trefniadau gweithredol wedi newid erbyn iddynt ddychwelyd.

Mae arbenigwyr wedi rhybuddio bod Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl mamau y tu hwnt i'r hyn a welwyd yn y boblogaeth gyffredinol, lle mae'r cyfraddau pryder a gofnodwyd wedi mwy na dyblu. Dylid ystyried eu hailsefydlu i'r gweithlu.

## Mannau crefyddol

Mae ein Canllawiau Gweithredol yn nodi y dylid defnyddio'r holl le sydd ar gael i helpu i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff a dysgwyr, ac rydym yn deall y gallai hynny fod yn fwy heriol wrth i ni gynghori y dylai ysgolion a lleoliadau wneud y gorau o'r holl le sydd ar gael. Lle y gellir ail-bwrpasu ystafelloedd, dylid sicrhau bod darpariaeth ar gael o hyd i staff gael mynediad i fannau crefyddol ar adegau disgwyliedig o'r dydd.

## Lles

Rydym yn cydnabod bod cefnogi lles staff yn parhau i fod yn hollbwysig. Mae Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan yn galluogi staff i ystyried eu hiechyd a'u lles, a deall eu risg bersonol o ddatblygu symptomau mwy difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19 fel naill ai'n isel, yn uchel neu'n uchel iawn.

## Aelwydydd incwm isel

Er bod cau ysgolion a lleoliadau wedi achosi i rai aelodau o staff gael eu rhoi ar ffyrlo, a allai fod wedi gostwng eu hincwm misol, disgwylir y bydd cynyddu gweithrediadau yn caniatáu i'r bobl hynny ddychwelyd i'r gwaith ac i'w cyflog blaenorol.

## Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig

## Plant a phobl ifanc

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran | Gall colli mynediad at ddarpariaeth ar y safle, trefn a chyswllt cymdeithasol effeithio'n andwyol ar blant a phobl ifanc. Un o nodau craidd y | Plant a phobl ifanc yw'r grwpiau y mae cau ysgolion a cholegau yn effeithio fwyaf uniongyrchol arnynt. | Er y bydd y newidiadau a gyflwynir o fis Medi yn ceisio lleihau nifer y plant sy'n gorfod hunanynysu, rydym yn cydnabod y bydd yn ofynnol i rai dysgwyr |

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| | newidiadau a gyflwynwyd o fis Medi yw lleihau nifer y plant sy’n gorfod hunanynysu. Gwnaed y newid polisi hwn cyn cyhoeddiad y Prif Weinidog y bydd rheolau hunanynysu yn newid (o 7 Awst) ar gyfer plant dan 18 oed (gweler tudalen 1) a bydd y ddau newid hyn yn helpu i sicrhau bod plant yn aros yn yr ystafell ddosbarth am fwy o amser. | | hunanynysu er mwyn cyfyngu ar drosglwyddo coronafeirws. Mae ysgolion a lleoliadau wedi bod ar agor i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, a bydd hyn yn parhau i fod yn ofynnol. Mae mesurau'n cael eu llywio gan ganllawiau gweithredol, cyngor gan yr HSE, Iechyd Cyhoeddus Cymru a llywodraeth leol, ac yn seiliedig ar gyngor gwyddonol a thechnegol i Lywodraethau Cymru a'r DU. Er na fydd gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell fel mater o drefn i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth o fis Medi ymlaen, gall ysgolion annog eu defnyddio mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol/ardaloedd cymunedol. Gall unigolion hefyd barhau i ddefnyddio gorchuddion wyneb, er |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | enghraifft os yw hyn yn helpu i leihau pryder. |
| Anabledd | Gall plant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol neu arbennig gael eu heffeithio'n fwy andwyol drwy beidio â mynychu'r ysgol neu'r coleg. Un o nodau craidd y newidiadau a gyflwynwyd o fis Medi yw lleihau nifer y plant sy'n gorfod hunanynysu. | Ein nod yw sicrhau bod nifer y plant sy'n gorfod hunanynysu yn cael ei leihau. Dylai dysgwyr sy'n agored i niwed a nodwyd gan ddarparwyr addysgol neu Awdurdodau Lleol (gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol plant), barhau i allu cael mynediad at ddarpariaeth ar y safle yn ystod cyfnodau pan fydd lleoliadau ar gau. | Gellir disgwyl i bob plentyn a pherson ifanc y nodwyd eu bod yn agored i niwed neu sydd â datganiad AAA fynychu eu hysgol neu goleg arferol fel arfer trwy'r cyfnod fel y nodir yn y Rheoliadau. Mae'r gallu i fynychu eu hysgol neu eu lleoliad eu hunain yn lliniaru peth o'r effaith o ran cael mynediad at gefnogaeth gyfarwydd, rhyngweithio cymdeithasol a threfn arferol. Rydym yn cydnabod effaith barhaus y pandemig ar gefnogaeth i'r dysgwyr hyn. |
| Ailbennu Rhywedd | Dim | -- | -- |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Deallwn y gallai fod achosion o feichiogrwydd ymhlith pobl ifanc a allai barhau i fod yn bresennol yn yr ysgol neu'r coleg. | Mae astudiaethau o'r DU yn dangos nad yw menywod beichiog yn fwy tebygol o fynd yn ddifrifol wael o'r coronafeirws ond mae menywod | Gall negeseuon canolog a gwybodaeth sydd ar gael fod yn berthnasol a rhoi sicrwydd. Mae sicrhau bod cymaint o'r unigolion hyn yn gallu mynychu'r ysgol yn |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | beichiog wedi'u cynnwys yn y rhestr o bobl sydd mewn mwy o berygl fel rhagofal. Dylai menywod beichiog ddilyn canllawiau diweddaraf y llywodraeth ar ymbellhau cymdeithasol ac osgoi unrhyw un sydd â symptomau sy'n awgrymu coronafeirws. Dylai menywod beichiog yn eu trydydd trimester fod yn arbennig o sylwgar i ymbellhau cymdeithasol. | debygol o helpu i sicrhau y gellir darparu cymorth priodol ac amserol ac unrhyw drefniadau ar gyfer y dysgu a fabwysiadwyd os oes angen. |
| Hil | Gall dysgu o bell effeithio'n andwyol ar rai dysgwyr Duon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, gan gynnwys dysgwyr Sipsi, Roma a Theithwyr, yn enwedig o ran cael mynediad at dechnoleg. | Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol,* Hydref 2020 | Fel rhan o'r rhaglen 'Cadw’n ddiogel, Dal ati i Ddysgu’, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi dysgwyr sydd heb fynediad digidol a bydd dychwelyd yn llawn i ddysgu ar y safle yn cael gwared ar lawer o'r rhwystrau.<br><br>Gan gydnabod y cynnydd a wnaed a'r amgylchiadau a fydd yn |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | parhau i ofyn am fynediad a seilwaith cartref (e.e. yn ystod cyfnodau o hunan ynysu), anogir ysgolion a lleoliadau i sefydlu amrywiaeth o sianeli cyfathrebu ar gyfer rhieni a gofalwyr, gan gynnwys opsiynau nad ydynt yn ddigidol i'r rhai sydd heb fynediad at dechnoleg.<br><br>Gall pob dysgwr sydd â mynediad at dechnoleg elwa o blatfform dysgu digidol Hwb i Gymru gan gynnwys Office 365.<br><br>Bydd newidiadau i'w cyflwyno o fis Medi yn ceisio lleihau nifer y dysgwyr sy’n gorfod hunanynysu, gan leihau'r effaith anghymesur y gallai hunan-ynysu dosbarth cyfan/blwyddyn ei chael ar rai grwpiau. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Gall y penderfyniad i gau ysgolion neu golegau gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion neu golegau | Efallai mai'r ysgol neu'r coleg yw'r unig gyfle a gaiff rhai plant a phobl ifanc i arfer crefydd gyda'u cyfoedion. | Drwy Hwb, y llwyfan dysgu digidol i Gymru, mae gan ddysgwyr ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir fynediad at amrywiaeth o |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | crefyddol eu natur, lle mai dyma'r unig gyfle a gânt i gyd-addoli neu i gael unrhyw ddysgeidiaeth arall sy'n bwysig i'r unigolion hynny. | | adnoddau dysgu ar-lein.<br><br>Er ein bod yn anelu at leihau nifer y dysgwyr sy'n hunanynysu, gall fideogynadledda ddarparu profiad rhyngweithiol a chyfle i gydweithio a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefyddol drwy'r ysgol neu'r coleg mewn ffordd ddiogel a hygyrch mewn amgylchiadau lle nad yw dysgwyr yn gallu bod yn bresennol oherwydd eu bod yn hunanynysu. |
| Rhyw / Rhywedd | Mae pob dysgwr yn datblygu mewn gwahanol ffyrdd ac er ei fod yn gymhleth, rydym yn deall y gall rhyw fod yn ffactor dylanwadol mewn datblygiad gwybyddol, o ran cyfranogiad a chyflawniad; er y gall rhywedd hefyd ddangos bodolaeth rhwystrau a heriau eraill a allai gael mwy o effaith. | Gwybodaeth am gyrhaeddiad dros amser a thystiolaeth ryngwladol gan PISA, er enghraifft (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr | Mae natur unigol dysgwyr a dysgu a'r angen am gymorth wedi'i dargedu yn cael ei gydnabod yn ein camau gweithredu i gefnogi plant a phobl ifanc i ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau a symud y tu hwnt i COVID. |

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | -- | -- |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim | -- | -- |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y cam nesaf hwn o gynyddu mynediad i ddysgu ar y safle wedi'i gynnal ar wahân. | Plant a phobl ifanc yw'r grwpiau y mae cau ysgolion a cholegau yn effeithio fwyaf uniongyrchol arnynt. | Byddwn yn adeiladu ar y materion a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant llawn ar gael ar wahân. |
| Aelwydydd incwm isel | Gall cau ysgolion a cholegau effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr o gartrefi incwm isel lle mai mynediad cyfyngedig yn unig sydd ganddynt at ddyfeisiau digidol a'r rhyngrwyd. | Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19 *Defnydd o'r rhyngrwyd a sgiliau digidol* | Gellir gweld dychweliad llawn i addysgu a dysgu ar y safle yn mynd i'r afael â nifer o'r materion a achosir gan fynediad cyfyngedig i gysylltedd digidol. Fel rhan o'r rhaglen 'Cadw’n ddiogel, Dal ati i Ddysgu’, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi dysgwyr sydd heb fynediad digidol.<br><br>Darparwyd arian ychwanegol i gefnogi'r dysgwyr hyn yn 2020. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | Yn ogystal, mae ysgolion a lleoliadau yn parhau i gael eu hannog i sefydlu amrywiaeth o sianeli cyfathrebu ar gyfer rhieni a gofalwyr, gan gynnwys opsiynau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y rhieni a'r gofalwyr hynny heb fynediad at dechnoleg ar gyfer amgylchiadau lle gallai fod angen dysgu rhai dysgwyr o bell, e.e. os ydynt yn hunanynysu. |
| Aelwydydd incwm isel | Gall cau ysgolion effeithio'n andwyol ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael darpariaeth prydau ysgol am ddim. | Mae rhai teuluoedd yn dibynnu ar ddarparu prydau ysgol am ddim ar gyfer anghenion maeth ac iechyd eu plant.<br><br>Mae data a gasglwyd gan Ddata Cymru wedi dangos bod nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu o 12,969 ers diwedd mis Mehefin 2020 o 91,700 ar ddiwedd mis Mehefin i 104,669 ar y 9 Rhagfyr | Ceir Awdurdodau Lleol eu hatgoffa bod dyletswyddau cyfreithiol o ran darparu prydau ysgol am ddim yn dal i fod yn berthnasol trwy gydol y cyfnodau hyn o gau ysgolion ac ailagor yn raddol ac yn llawn.<br><br>Yn ogystal, wrth wneud trefniadau ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i ddysgwyr cymwys, rhaid i gyrff llywodraethol ysgolion ac Awdurdodau Lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau na all unrhyw berson, ac |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | 2020. Cynyddodd hyn i dros 105,000 erbyn diwedd Ionawr 2021, a disgwyliwn y gallai fod wedi cynyddu ers hynny. | eithrio person a awdurdodir o dan ddeddfwriaeth, gydnabod dysgwr fel dysgwr sy'n cael cinio ysgol am ddim.<br><br>Drwy leihau nifer y dysgwyr sy'n gorfod hunanynysu, rydym yn sicrhau bod cymaint o ddysgwyr â phosibl yn mynychu darpariaeth ar y safle, sydd yn ei dro yn helpu i sicrhau bod y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu derbyn.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am brydau ysgol am ddim yn y canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau.<br><br>Mae cefnogaeth ychwanegol gan gynnwys trwy Fynediad GDD yn parhau i fod ar gael. |

**Staff mewn ysgolion a lleoliadau a theuluoedd**

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran | Gall oedolion oedran gweithio sy'n rhieni gael eu heffeithio'n andwyol gan yr angen i ddarparu gofal plant a chymorth ychwanegol i'w plant wrth addysgu adref. Fel rhan o'r newidiadau o fis Medi ymlaen, ein nod yw lleihau nifer y plant sy'n gorfod hunanynysu, gan leihau'r effaith ar oedolion o oedran gweithio sydd â phlant ifanc yn arbennig y bydd angen gofal arnynt a chael eu goruchwylio pan fydd gofyn iddynt hunanynysu.<br><br>Bydd rhai o'r rhieni hyn wedi gorfod defnyddio absenoldeb neu chwilio am waith arall lle nad yw gweithio gartref wedi bod yn opsiwn, ac mewn rhai achosion byddant wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi colli | Mae cyfnodau o hunanynysu o bosib wedi golygu bod llawer o rieni sy'n gweithio nad ydynt yn weithwyr hanfodol wedi gorfod gwneud trefniadau gyda'u cyflogwyr i newid patrymau a lleoliadau gwaith.<br><br>Roedd dibyniaeth ar rwydweithiau gofal plant ehangach fel teulu a chyfeillion hefyd yn gyfyngedig o dan y mesurau COVID-19 ar waith yn ystod y misoedd diwethaf, ond bydd cymysgu cymdeithasol ehangach yn bosibl wrth i ni symud i Lefel Rhybudd 0. | Rydym yn parhau i ddefnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddosbarthu gwybodaeth a chyngor i rieni a rhoi sicrwydd, er enghraifft yr ymgyrch *Magu Plant*. *Rhowch Amser Iddo* a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta, a Rhwydweithiau Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. Mae ein hymgyrchoedd sicrwydd diweddar wedi canolbwyntio ar Dal Ati i Ddysgu, Profi a Diogelu Cymru.<br><br>Mae cyfran uchel o oedolion hŷn (90%+ o'r rhai 65 oed a hŷn) a mwy na 72% o oedolion bellach wedi derbyn y ddau ddos o'r brechlyn, gan liniaru'r risgiau hyn. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | cyflogaeth, a allai yn ei dro arwain at gynnydd mewn aelwydydd incwm isel. | | |
| Oedran | Gall pobl hŷn sydd wedi ymddeol ac sy'n darparu gofal plant e.e. ar gyfer wyrion ac wyresau gael eu heffeithio'n andwyol gan yr angen i ddarparu cymorth ychwanegol gyda gofal plant a chymorth gydag addysg yn y cartref ac maent yn fwy tebygol o fod â gwendidau a phryderon iechyd o ran trosglwyddo COVID. | Galwyd ar neiniau a theidiau i helpu gyda gofal plant ac addysg yn y cartref lle nad yw rhieni sy'n gweithio wedi gallu gwneud trefniadau amgen. Gall dychwelyd yn llawn i ddarpariaeth ar y safle leihau'r effaith ar ofyn am help neiniau a theidiau gyda gofal plant, gan gynyddu'r amser y mae pob dysgwr mewn ysgolion / lleoliadau. | |
| Oedran | Gall aelodau hŷn o staff hefyd fod â phryderon ynglŷn â gwendidau iechyd anwyliaid yn eu cartref neu mewn trefniadau gofal. | Gwyddom fod oedran yn ffactor wrth benderfynu ar y risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol o Covid-19. | Mae Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector yn ystyried oedran ac yn helpu'r unigolyn a'i gyflogwr i gymryd camau ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn yn ychwanegol at y mesurau lliniaru a gyflwynir ar gyfer |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | dysgwyr, staff ac eraill ar safleoedd ysgolion.<br><br>Bydd gan yr adnodd asesu risg oblygiadau uniongyrchol a hir dymor i'r unigolion hynny sy'n asesu eu ffactorau risg personol. Yn yr hir dymor, bydd rhai pobl a allai fod mewn perygl fod wedi cael eu hamddiffyn rhag haint COVID-19 difrifol neu bosibilrwydd o farwolaeth. Yn ogystal â'r camau a gymerir ar unwaith, yn yr hir dymor bydd unigolion yn gallu nodi a deall gwelliannau i'w ffordd o fyw a allai gael effaith tymor hir ar eu hiechyd a'u lles os gweithredir arnynt.<br><br>Er na fydd gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell fel mater o drefn i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth o fis Medi ymlaen, gall ysgolion annog eu defnyddio mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol/ardaloedd cymunedol. Gall |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | unigolion hefyd barhau i ddefnyddio gorchuddion wyneb, er enghraifft os yw hyn yn helpu i leihau pryder.<br><br>Cydnabyddir buddion tymhorol y tywydd cynhesach a’r dyddiau hirach, ynghyd â'r symudedd cymunedol cynyddol fel ffactorau a allai gael effaith gadarnhaol a negyddol.<br><br>Mae cyfran uchel o oedolion hŷn (90%+ o'r rhai 65 oed a hŷn) a mwy na 72% o oedolion bellach wedi derbyn y ddau ddos o'r brechlyn, gan liniaru'r risgiau hyn. |
| Anabledd | Gall rhieni a gofalwyr ag anableddau gael eu heffeithio'n anghymesur gan yr angen i ddarparu gofal plant a chymorth ychwanegol pan fydd ysgolion yn cau. | Gall anableddau corfforol ac anableddau dysgu effeithio ar allu rhiant i gyflawni rôl rhoddwr gofal ac addysgwr yn llawn amser, hyd yn oed am gyfnod byr. | Mae canllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai rhai rhieni a gofalwyr fod yn fwy pryderus ynglŷn â’u plant yn presenoldeb yn yr ysgol. Mae'n hanfodol bod ysgolion yn dilyn pryderon ynglŷn ag ymgysylltu, neu les dysgwr. Dylai ysgolion ac Awdurdodau Lleol weithio gyda'r teulu i |

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| | | | gefnogi dysgwyr i fanteisio ar y cwricwlwm llawn a lleihau'r tarfu ar eu haddysg. |
| Anabledd | Bydd cynyddu gweithrediadau ar y safle yn gofyn am fwy o staff i weithio o safleoedd ysgolion. Gall hyn gynnwys staff ag anableddau. | Mae'n debygol y bydd angen i nifer uwch o staff ysgol ag anableddau corfforol gymryd rhagofalon ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol o gymharu â staff ysgol heb anabledd. | Drwy ein canllawiau gweithredol pwysleisiwn y dylai staff siarad â'u cyflogwyr am sut y cânt eu cefnogi. Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle mae'n ofynnol bellach i aelodau staff ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. |
| Ailbennu Rhywedd | Rydym yn cydnabod y gallai aelodau trawsryweddol o'r gweithlu fod wedi profi oedi cyn cael triniaeth sy'n cadarnhau rhyw oherwydd COVID-19, a allai gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles.<br><br>Nid oes data ar gael i ddod o hyd i faint o aelodau'r gweithlu y gallai hyn fod yn effeithio arnynt. | -- | -- |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Gall menywod beichiog a'r rhai sydd â phlant ifanc iawn yn ogystal â phlant hŷn sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg gael eu heffeithio'n andwyol gan yr angen i ddarparu gofal plant a chymorth ychwanegol ar gyfer addysg yn y cartref.<br><br>Mae'r rhai sydd wedi dod yn ofalwyr di-dâl yn fwy tebygol o fod yn fenywod, yn iau ac mae ganddynt blant ifanc. Maent wedi wynebu galwadau croes, sydd wedi herio eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol ac wedi rhoi straen ychwanegol ar eu perthynas, eu cyllid a'u gallu i wneud gwaith cyflogedig. | Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol,* Hydref 2020 | Rydym yn parhau i ddefnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddosbarthu gwybodaeth a chyngor i rieni a rhoi sicrwydd, er enghraifft yr ymgyrch *Magu Plant*. *Rhowch Amser Iddo* a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta, a Rhwydweithiau Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Gall staff sy'n gweithio ar y safle gynnwys staff sy'n feichiog. | Mae menywod beichiog yn y categori pobl sydd mewn mwy o berygl ac fe'u cynghorir yn gyffredinol i ddilyn y cyngor uchod, sy'n berthnasol i'r holl | Rydym wedi nodi yn ein canllawiau gweithredol y dylai staff beichiog a'u cyflogwyr ddilyn y cyngor yn COVID-19: cyngor i weithwyr beichiog. Mae hyn ochr yn ochr ag |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | staff mewn ysgolion a'r cyngor i'r cyhoedd ond wrth wneud hynny i fod yn ymwybodol eu bod mewn mwy o berygl | Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan. Rydym yn argymell y dylid diweddaru'r asesiad risg hwn i adlewyrchu'r trefniadau wedi'u diweddaru. |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Gall hyn gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, y gwyddom eu bod mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol o Covid-19. | Er bod y cynnig hwn yn galluogi aelodau staff i ail-ymgysylltu â dysgu wyneb yn wyneb â dysgwyr, mae'n hysbys bod ethnigrwydd yn ffactor wrth bennu risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol o Covid-19. | Mae Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector yn ystyried oedran ac yn helpu'r unigolyn a'i gyflogwr i gymryd camau ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn yn ychwanegol at y mesurau lliniaru a gyflwynir ar gyfer dysgwyr, staff ac eraill ar safleoedd ysgolion.<br><br>Bydd gan yr adnodd asesu risg oblygiadau uniongyrchol a hir dymor i'r unigolion hynny sy'n asesu eu ffactorau risg personol. Yn yr hir dymor, bydd rhai pobl a allai fod mewn perygl fod wedi cael eu hamddiffyn rhag haint COVID-19 difrifol neu bosibilrwydd o farwolaeth. Yn ogystal â'r camau a gymerir ar unwaith, yn |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | yr hir dymor bydd unigolion yn gallu nodi a deall gwelliannau i'w ffordd o fyw a allai gael effaith tymor hir ar eu hiechyd a'u lles os gweithredir arnynt.<br><br>Rydym yn argymell y dylid diweddaru'r asesiad risg hwn i adlewyrchu'r trefniadau wedi'u diweddaru. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Efallai y bydd staff yn pryderu na fyddant yn gallu dod o hyd i le addas ar y safle ar gyfer addoli crefyddol. | | Mae ein canllawiau gweithredol yn nodi y dylid defnyddio'r holl le sydd ar gael i helpu i gynnal pellter cymdeithasol oddi wrth staff a dysgwyr. Lle y gellir ail-bwrpasu ystafelloedd, dylid sicrhau bod darpariaeth ar gael o hyd i staff gael mynediad i fannau crefyddol ar adegau disgwyliedig o'r dydd. |
| Rhyw / Rhywedd | Menywod, yn hytrach na’u partneriaid gwrywaidd, sy'n fwy tebygol o ysgwyddo baich gofal plant ychwanegol ac addysg yn y cartref, | Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a* | Rydym yn parhau i ddefnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddosbarthu gwybodaeth a chyngor i rieni a rhoi sicrwydd, er enghraifft yr ymgyrch *Magu Plant*. *Rhowch* |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | hyd yn oed os ydynt mewn cyflogaeth. | *hawliau dynol,* Hydref 2020 | *Amser Iddo* a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta, a Rhwydweithiau Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. |
| Rhyw / Rhywedd | Rydym yn gwybod bod dynion mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol o COVID-19. | Mae parhau â'r ddarpariaeth ar y safle a dileu’r angen am grwpiau cyswllt yn galluogi aelodau staff i ailymgysylltu â dysgu wyneb yn wyneb â dysgwyr. Gwyddom fod oedran yn ffactor wrth bennu'r risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol o COVID-19. | Mae Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector yn ystyried oedran ac yn helpu'r unigolyn a'i gyflogwr i gymryd camau ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn yn ychwanegol at y mesurau lliniaru a gyflwynir ar gyfer dysgwyr, staff ac eraill ar safleoedd ysgolion.<br><br>Bydd gan yr adnodd asesu risg oblygiadau uniongyrchol a hir dymor i'r unigolion hynny sy'n asesu eu ffactorau risg personol. Yn yr hir dymor, bydd rhai pobl a allai fod mewn perygl fod wedi cael eu hamddiffyn rhag haint COVID-19 |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | difrifol neu bosibilrwydd o farwolaeth. Yn ogystal â'r camau a gymerir ar unwaith, yn yr hir dymor bydd unigolion yn gallu nodi a deall gwelliannau i'w ffordd o fyw a allai gael effaith tymor hir ar eu hiechyd a'u lles os gweithredir arnynt.<br><br>Rydym yn argymell y dylid diweddaru'r asesiad risg hwn i adlewyrchu'r trefniadau wedi'u diweddaru. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | -- | -- |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim | -- | -- |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Amherthnasol – gweler yr adran ar blant a phobl ifanc | -- | -- |
| Aelwydydd incwm isel | Efallai na fydd gan rieni o gartrefi incwm isel yr adnoddau deallusol i gefnogi eu plant drwy addysg yn y cartref. | Ein nod yw sicrhau bod nifer y dysgwyr sy'n gorfod hunanynysu yn lleihau. | Drwy Hwb, y llwyfan dysgu digidol i Gymru, mae gan ddysgwyr ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir fynediad at amrywiaeth o adnoddau dysgu ar-lein. Gall defnyddio |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | | apiau drwy Hwb ddarparu profiad rhyngweithiol a chyfle i gydweithio a chymryd rhan mewn ffordd ddiogel a hygyrch. |
| Aelwydydd incwm isel | Efallai y bydd aelodau o'r gweithlu addysg ac eraill sy'n gweithio mewn ysgolion a lleoliadau yn pryderu am faterion ariannol ac angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys y rhai ar aelwydydd incwm isel. | Er nad ydym yn mesur cymhwysedd prydau ysgol am ddim fesul cartref, gall y data a gasglwyd gan Ddata Cymru ddangos cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim amlygu pryderon ariannol ehangach. | Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi rhoi nifer o fesurau cymorth ar waith ar gyfer pobl ar aelwydydd incwm isel gan gynnwys cymorth ariannol, cymorth dewisol a chynlluniau gwella. |

## Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Er bod y Rheoliadau yn ymrwymo hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1988 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn gyfiawn at ddiben atal lledaenu clefydau heintus a/neu caniateir yr ymyriad am ei fod ynghlwm wrth gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur.

Ymrwymir Erthygl 5 (hawl i ryddid), Erthygl 8 (parch am eich bywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r rhain i gyd yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn diogelu'r cyhoedd, neu ddiogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau unrhyw gyfryw gyfyngiadau a

gofynion ar sail y ffaith eu bod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur.

Rhaid i unrhyw achos o ymyrryd â'r hawliau hyn hefyd gael ei gydbwyso â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (hawl i fywyd). Mae'n cydbwyso'r angen i barhau i ymateb i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws mewn ffordd briodol â hawliau unigolion a busnesau, mewn ffordd sy'n parhau i fod yn gymesur â'r angen i ostwng cyfraddau trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Er ein bod yn gwneud newidiadau i'r Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o fis Medi ymlaen, mae camau allweddol y cynghorir ysgolion a lleoliadau i barhau i'w dilyn – mae'r rhain yn cynnwys:

- ei gwneud yn ofynnol i bobl yn aros gartref ac yn hunanynysu:
    - os oes ganddynt symptomau COVID-19, p'un a ydynt yn teimlo'n sâl ai peidio
    - os ydynt wedi cael prawf positif, hyd yn oed os yw asymptomatig
    - os ydynt wedi cael cyngor gan swyddogion Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru i wneud hynny
    - os oes rhywun arall ar yr aelwyd wedi cael prawf positif, hyd yn oed os yw'r achos hwnnw'n asymptomatig
    - os ydynt yn gorfod hunanynysu am resymau sy'n gysylltiedig â theithio
- meithrin arferion hylendid dwylo ac anadlol cadarn ymysg dysgwyr ac aelodau staff
- sicrhau mesurau awyru a chyfundrefnau glanhau priodol ar safle'r ysgol
- ymgysylltu'n weithredol â strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu
- ystyriaeth ffurfiol o sut i leihau cysylltiadau a chadw pellter cymdeithasol a chorfforol rhwng y rhai yn yr ysgol, lle bynnag y bo modd, a rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith i leihau'r potensial ar gyfer halogiad i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol.
- Staff i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff eraill.
- Staff i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth y dysgwyr gymaint â phosibl, gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl gyda dysgwyr iau. Efallai na fydd hyn yn bosibl hefyd i rai dysgwyr mewn ysgolion arbennig a rhai dysgwyr ag AAA; yn yr achosion hynny dylech gyfeirio at y canllawiau ar gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig.
- Manteisio i'r eithaf ar y gofod sydd ar gael, gan gynnwys mannau awyr agored.